# Tasg 3

**(Estynnol, sbardun 1)**

Mae'r erthygl yn rhoi llawer iawn o orchmynion e.e. gwnewch, peidiwch â gadael.
Maen nhw ar gyfer llawer o bobl, neu un person nad ydych chi'n ei adnabod yn dda ac yn ei alw'n 'chi'.

Gyda phartner, newidiwch y gorchmynion hyn i'r ffurf unigol 'ti'. Mae'r enghraifft gyntaf wedi'i gwneud i chi.

| **Gorchymyn – ffurf 'chi'** | **Gorchymyn – ffurf 'ti'** |
|---|---|
| 1. **Byddwch** yn ofalus gyda chanhwyllau. | ***Bydd*** *yn ofalus gyda chanhwyllau.* |
| 2. **Cadwch** y canhwyllau draw o'r llenni. | |
| 3. **Peidiwch â gadael** plant bach yn y gegin. | |
| 4. **Cadwch** un plwg i bob soced. | |
| 5. **Dywedwch** wrth bobl sy'n ysmygu am ddiffodd sigaréts yn llwyr. | |
| 6. **Rhowch** larymau mwy yn y cartref. | |
| 7. **Gwnewch** yn siŵr bod y batris yn gweithio. | |
| 8. **Newidiwch** y batris bob blwyddyn. | |
| 9. **Paratowch** lwybr dianc. | |
| 10. **Peidiwch â cheisio** diffodd tân: **gadewch** hynny i'r ymladdwyr tân – **ewch** allan, **arhoswch** allan a **ffoniwch** 999. | |